# Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta

# Cofnodion

12 Tachwedd 2020, 14:00-15:15
Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Helen Mary Jones AS (Cadeirydd Dros Dro) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Eluned Morgan AS | Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg |
| Menna Jones | Arweinydd Clinigol Anhwylderau Bwyd T3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf |
| Jo Maddaford | Pennaeth Iechyd Meddwl Plant a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Donna Mason | Mental Health Matters Wales |
| Holly Thomas | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a gwirfoddolwr gyda Beat Digital |
| Carole Phillips | |
| Emma Hagerty | BIP Aneurin Bevan |
| Emily Hoskins | |
| Chad Rickard | Ymchwilydd a Swyddog Cyfathrebu, Swyddfa Bethan Sayed AS |
| Gerrard McCullagh | BIP Aneurin Bevan |
| Peter Kellam | |
| Manon Lewis | |
| Natalie Chetwynd | BIP Hywel Dda |
| Natalie Reilly-Johnson | BIP Cwm Taf |
| Samantha Shore | BIP Cwm Taf |
| Sarah Tombs | BIP Cwm Taf |
| Teresa Hurrell | BIP Aneurin Bevan |
| Tracy Brain | BIP Cwm Taf |
| Wendy Clarke | BIP Aneurin Bevan |
| Rebecca Bowen | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Carl Shortland | Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru |
| Caroline Winstone | Cydweithfa Iechyd GIG Cymru |
| Hazel Orchard | |
| Mark Isherwood AS | Gogledd Cymru |
| Yolanda Snyman | BIP Betsi Cadwaladr |
| Emma Evans | BIP Betsi Cadwaladr |
| Jo Whitfield | Beat |
| Tom Quinn | Beat |

DRAFT

| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | |
|---|---|

Croesawodd Helen Mary Jones AS y rhai a oedd yn bresennol i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta. Hefyd estynnodd Helen Mary groeso cynnes i Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

**CAFWYD**: Ymddiheuriadau gan aelodau absennol

| | |
|---|---|
| James Downs | Dr Jacinta Tan, BIP Aneurin Bevan |
| Kim Palmer, BIP Cwm Taf | Jazz Callen-Davies |
| Sian Taylor, BIP Aneurin Bevan | Llyr Gruffydd, AS |
| Dr Debbie Woodward, BIP Caerdydd a'r Fro | Rebecca Eksteen, BIP Cwm Taf |
| Helen Parfit, Swyddfa Helen Mary Jones AS | Angela Lodwick, BIP Hywel Dda |
| Delyth Jewell AS | Nick Ramsay AS |
| Ewan Hilton, Platfform | Rhian Murphy |
| Rhun ap Iorwerth, AS | Martin Ball |
| Dr Dai Lloyd AS | Mike Hedges AS |

| 2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf | Camau gweithredu |
|---|---|
| **DERBYNIWYD**<br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf | **JW** i'w hanfon i'r Swyddfa Gyflwyno |

| 3. Diweddariad ar yr Adolygiad o Wasanaeth Anhwylder Bwyta Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|
| Dywedodd Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, wrth y grŵp fod anhwylderau bwyta yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.<br><br>Esboniodd y Gweinidog, yng ngoleuni'r pandemig, fod y camau gweithredu a amlinellwyd yng nghynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi'u diweddaru, ac eglurodd fod gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn wasanaethau hanfodol trwy gydol yr argyfwng ac wedi parhau i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaeth. Esboniodd y Gweinidog fod yn rhaid i'r fecaneg ar gyfer darparu gwasanaethau newid mewn rhai achosion.<br><br>Dywedodd y Gweinidog wrth y grŵp y bu tri phrif faes ffocws mewn ymateb i'r pandemig: | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Cynnal gwasanaethau iechyd ac ymateb i anghenion iechyd meddwl ar unwaith<br>• Cryfhau ffactorau diogelu er mwyn atal materion iechyd meddwl<br>• Cefnogi'r GIG i ddiwallu'r anghenion iechyd meddwl sy'n newid<br><br>Esboniodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta, ac ers 2017 cafodd byrddau iechyd £2.5 miliwn ychwanegol i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau.<br><br>Yn olaf, cadarnhaodd y Gweinidog benodiad Dr Menna Jones yn arweinydd clinigol cenedlaethol anhwylderau bwyta. Bydd Menna yn ymgymryd â'r rôl yn y flwyddyn newydd. Esboniodd y Gweinidog fod dwy elfen allweddol i'r rôl newydd: arwain rhwydwaith clinigol anhwylderau bwyta ac arwain y rhaglen waith drawsnewidiol.<br><br>Diolchodd Helen Mary Jones AS i'r Gweinidog, ac ar ran y grŵp croesawodd Dr Menna Jones i'w swydd newydd.<br><br>Siaradodd Jo Maddaford o Lywodraeth Cymru â'r grŵp am fesurau a gymerwyd yn ystod ton gyntaf y pandemig i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys gwasanaethau anhwylder bwyta.<br><br>Esboniodd Jo fod anhwylderau bwyta yn ystod y pandemig yn cael eu blaenoriaethu fel gwasanaethau hanfodol, ac er bod modelau cyflawni yn newid, roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwyddi draw.<br><br>Esboniodd Jo fod £1.3 miliwn ar gael yn ystod y pandemig i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl y trydydd sector. Cafodd Beat rywfaint o'r arian hwnnw i sicrhau ei fod yn gallu parhau i gefnogi pobl roedd anhwylderau bwyta yn effeithio arnynt. Cyfeiriodd Jo at ddata a gafwyd gan Beat a oedd yn cadarnhau bod mwy na 1,700 o bobl wedi'u cefnogi yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Hydref.<br><br>Rhoddodd Jo y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad o Wasanaethau Anhwylderau Bwyta Cymru 2018. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru, am y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi nodi tri maes blaenoriaeth i'r | |

DRAFT

byrddau iechyd ganolbwyntio eu cynigion cyllido arnynt:

- Ffurfweddu gwasanaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac ar gyfer gwella
- Gweithio tuag at gyflawni safonau NICE ar gyfer anhwylderau bwyta
- Datblygu cynlluniau sy'n amlinellu sut y byddant yn cyrraedd y targedau rhestr aros pedair wythnos

Dywedodd Jo fod pob un o'r saith bwrdd iechyd wedi cyflwyno cynlluniau, ac esboniodd y bydd rôl newydd Menna yn helpu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

Esboniodd Menna ei bod hi, fel cadeirydd yr Is-grŵp Anhwylder Bwyta, wedi bod yn gysylltiedig â'r datblygiadau ers cyhoeddi argymhellion yr adolygiad a gwnaeth sylwadau ar ba mor dda oedd gweld yr argymhellion yn dechrau cael eu rhoi ar waith drwy'r cymorth ariannol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Siaradodd Menna am rai themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg, gan nodi sut mae gwasanaethau'n symud gyda'i gilydd i gyflawni'r argymhellion allweddol gan gynnwys:

- gwaith ymyrraeth gynnar
- gwella mynediad at therapïau seicolegol
- lleihau amseroedd aros
- cymorth arbenigol CAMHS a haen 2 i oedolion ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta a'u teuluoedd
- cefnogi grwpiau sy'n agored i niwed, risg uchel ac sydd ag anghenion cymhleth e.e. pobl sydd wedi cael diagnosis o Anhwylder Osgoi/Cyfyngu ar Fwyta neu diabetes.

Mae Menna yn edrych ymlaen at adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill gan lunio cynllun clir sy'n edrych yn eang ar draws yr argymhellion a chydlynu'r datblygiadau.

Cyfeiriodd Gerrard McCullagh at lythyr roedd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi'i anfon at fyrddau iechyd ym mis Medi 2019. Gofynnodd Gerrard a oedd arian ychwanegol ar gael yn y dyfodol ar gyfer byrddau iechyd a oedd yn barod i fabwysiadu rhai elfennau o argymhellion yr adolygiad yn gynnar?

Ymatebodd Jo Maddaford drwy gadarnhau bod y Gweinidog

DRAFT

| | |
|---|---|
| iechyd wedi cyhoeddi arian yn 2019 ac mai hwn oedd yr arian roedd wedi cyfeirio ato yn gynharach. Esboniodd Jo fod y £1 miliwn ychwanegol wedi mynd at wella gwasanaethau, a'i fod, drwy ei ddosbarthu fel hyn, wedi caniatáu i fyrddau iechyd bennu ffocws unigol a meysydd blaenoriaeth yn unol ag anghenion eu poblogaethau unigol. Cadarnhaodd Jo fod pob cynnig anhwylder bwyta gan fwrdd iechyd a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd wedi cael ei gymeradwyo. | |
| **4. Cefnogaeth anhwylderau bwyta gan y trydydd sector - Yr ymateb i Covid-19** | |
| **Mental Health Matters Wales (MHMW)**<br>Esboniodd Donna Mason o Mental Health Matters Wales sut roedd MHMW wedi addasu eu grwpiau cymorth cymheiriaid ar gyfer pobl roedd anhwylderau bwyta yn effeithio arnynt mewn ymateb i'r pandemig. Dywedodd Donna wrth y grŵp bod grwpiau bellach yn cwrdd ar-lein gan ddefnyddio Zoom. Esboniodd fod y galw a'r atgyfeiriadau i'w gwasanaeth wedi cynyddu a bod pob grŵp bellach yn rhedeg am 2-3 awr yr wythnos.<br><br>Dywedodd Donna eu bod wedi gweld cymysgedd o gleientiaid newydd a chleientiaid sydd wedi ailwaelu â'u hanhwylder bwyta yn ystod y pandemig. Esboniodd Donna fod y problemau y maent yn eu gweld gyda chleientiaid yn cynnwys diffyg trefn arferol, pryderon ynghylch siopa, pryderon ynghylch gallu cael bwydydd diogel a phryder ynghylch methu â chuddio ymddygiadau oddi wrth deulu. Nododd Donna gynnydd mewn hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad ymhlith cleientiaid.<br><br>Dywedodd Donna wrth y grŵp fod MHMW wedi cael arian gan y loteri genedlaethol a oedd wedi eu galluogi i gynyddu cefnogaeth cymheiriaid i hyd at 6 awr bob wythnos. Esboniodd Donna fod MHMW, ochr yn ochr â'r grwpiau cymorth cymheiriaid, hefyd yn darparu cefnogaeth trwy WhatsApp ac e-bost.<br><br>Mae mwy o wybodaeth am y cymorth mae Mental Health Matters yn ei darparu ar eu gwefan: [https://mhmwales.org.uk](https://mhmwales.org.uk) | HMJ i ysgrifennu at y Gweinidog am bryderon ynghylch mynediad at wasanaethau. |

| | |
|---|---|
| Esboniodd Donna i'r grŵp fod cleientiaid MHMW, yn ystod y pandemig, wedi nodi y bu diffyg argaeledd gwasanaethau weithiau ar gyfer anhwylder bwyta arbenigol a gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Dywedodd Donna fod rhai o'i chleientiaid wedi cael eu rhyddhau o wasanaethau arbenigol ar ddechrau'r pandemig ac nad oedd rhai yn ymwybodol eu bod wedi cael eu rhyddhau nes iddynt geisio cael gafael ar gymorth.<br><br>Esboniodd Donna fod rhan o'i rôl yn cynnwys gwaith eirioli gyda chleientiaid. Yn ystod y pandemig bu'n gweithio gyda chleientiaid nad oeddent yn gallu cael mynediad at eu timau iechyd meddwl cymunedol. Dywedodd y dywedwyd wrth bobl a oedd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad y "byddai'n rhaid iddynt ymuno â chiw ac aros".<br><br>Dywedodd Donna wrth y grŵp mai adrodd yn ôl am adborth a gafodd gan ei chleientiaid oedd i ac nad oedd am i'w hadroddiad gael ei gymryd mewn ffordd feirniadol.<br><br>Dywedodd Donna y bu llawer o brofiadau cadarnhaol gyda gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd hi'n teimlo ei bod yn bwysig bachu ar y cyfle i dynnu sylw at y problemau y mae rhai o'i chleientiaid wedi'u cael.<br><br>Beat<br>Esboniodd Jo Whitfield sut roedd Beat wedi gallu ymateb i'r pandemig a chyflwyno gwasanaethau newydd i bobl ag anhwylder bwyta a theuluoedd rhywun yr effeithiwyd arnynt drwy gyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol ac ymddiriedolaeth elusennol.<br><br>Dywedodd Jo fod y galw am wasanaethau Beat wedi parhau i dyfu drwy gydol yr argyfwng a bod Beat wedi gweld cynnydd o 162% yn y galw am ei wasanaethau yng Nghymru rhwng Ebrill a Hydref o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.<br><br>Esboniodd Jo, ers i'r pandemig ddechrau, fod Beat wedi recriwtio a hyfforddi 72 o wirfoddolwyr digidol ychwanegol i helpu i ateb y galw cynyddol, sy'n dod â chyfanswm y gwirfoddolwyr digidol i 112.<br><br>**Rhaglen Gwirfoddoli Digidol Beat** | JW i rannu sleidiau'r cyflwyniad gyda'r grŵp |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Siaradodd Hollie Thomas, gwirfoddolwr digidol gyda Beat, â'r grŵp am ei phrofiad o wirfoddoli drwy'r pandemig.<br><br>Esboniodd Hollie ei rôl fel gwirfoddolwr digidol, gan amlinellu'r hyfforddiant a gafodd, yr hyn mae'n ei wneud ar shifft a'r cymorth mae'n ei gael yn dilyn shifft.<br><br>Esboniodd Hollie sut mae gwirfoddoli yn ei galluogi i roi'r sgiliau gwybodaeth a ddysgodd yn ei gwaith a'i hastudiaethau ar waith.<br><br>Amlinellodd Hollie y broses ymgeisio yr aeth drwyddi er mwyn dod yn wirfoddolwr digidol a oedd yn cynnwys ffurflen gais, tystlythyrau, cyfweliad, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r broses hyfforddi ddilynol.<br><br>Siaradodd Hollie am y gefnogaeth ôl-drafodaeth y mae'n ei chael ar ôl pob shifft a'r sesiynau goruchwylio clinigol y mae gwirfoddolwyr digidol yn eu mynychu'n rheolaidd.<br><br>Dywedodd Hollie wrth y grŵp am y cynnydd mewn galw mae hi wedi'i weld wrth wirfoddoli yn ystod y pandemig, gan egluro, cyn y pandemig, byddai'n cael tua 4-5 sgwrs gwe ar gyfartaled fesul sesiwn gwirfoddoli, ond nawr gall fod hyd at 11. | |
| **5. Adolygiad o'r Camau Gweithredu a'r Camau Nesaf** | |
| Adolygwyd a nodwyd y camau gweithredu drwy'r ddogfen hon. | |
| **6. Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| Awgrymodd JW y gallai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar ail-ymweld â'r meysydd gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer 2020/21 er mwyn edrych ar gynnydd a meysydd sydd wedi gorfod cael eu gohirio oherwydd y pandemig.<br><br>Esboniodd HMJ fod disgwyl i Bethan Sayeed ddychwelyd o gyfnod mamolaeth ym mis Ionawr ac y bydd yn cadeirio'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.<br><br>Diolchodd JW i HMJ am weithredu fel cadeirydd y grŵp | JW i weithio gyda swyddfa HMJ a Bethan Sayeed i gytuno ar ddyddiad ac agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| traws bleidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac am ei chefnogaeth i'r grŵp.<br><br>Ionawr 2021 - Dyddiad i'w gadarnhau | |

DRAFT